

Minutes of **COUNCIL MEETING** held at Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Monday, September 5th 2016** at 6.30 p.m.

PRESENT :- His Worship The Mayor, Councillor Dewi Williams

Councillors:	Mrs J Forsyth	D Madge	N Pickavance
	Bryn Hughes	Mrs J Marshall	Mair Rowlands
	J Wynn Jones	R K Marshall	M Shultan
	D Llewelyn	J M Martin	E H Williams

Officer: Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

66/16 APOLOGIES

Apologies for absence were received from The Deputy Mayor, Councillor D Hainge and Councillors Susan Ashworth, Mrs L Day, Mrs E Butler, Colin King and G O Roberts.

67/16 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None.

68/16 ANNOUNCEMENTS

The Town Clerk reported that the vacancy for the Marchog Ward had been advertised, an election was not requested. The Council would now co-opt a new Member to fill this vacancy (there had been two interested parties). Council considered the best way to fill the vacancy, given that the next Council meeting was 7th November, it was felt necessary to grant the Planning & Amenities Committee Power to Act on 26th September to make the appointment.

RESOLVED that the two applicants be invited to present a submission to the Planning & Amenities Committee on 26th September and for that Committee to have the Power to Act to make the co-option.

The Town Clerk reported it was the time to purchase Christmas Trees Bangor BID had indicated that they wished to buy an additional tree to be placed at the seating area at St. Johns Church, High Street. This would be subject to the appropriate sinking of a support tube as well as electricity supply and advice from the Highway Authority with regards to highway safety.

RESOLVED that the Town Clerk go ahead with the above requirements, also to purchase two Christmas Trees for the City Centre.

The Town Clerk reported that Citizens Advice had not received or cashed their cheque which was sent to them dated January 2016. As this was not now presentable to the Bank CA had requested a replacement payment. **RESOLVED** that a replacement payment by BACS be made.

69/16 MINUTES OF COUNCIL

Council Meeting – 6th June 2016

RESOLVED: that the Minutes of the above Meeting be received and confirmed as a correct record and signed by the Mayor.

70/16 MINUTES OF COMMITTEES

a) Planning and Amenities Committee – 6th June 2016

RESOLVED : that the Minutes of this Meeting be confirmed as a correct record.

b) Planning and Amenities Committee – 27th June 2016

RESOLVED : that the Minutes of this Meeting be confirmed as a correct record.

c) Finance and General Purposes Committee – 27th June 2016

RESOLVED : that the Minutes of this Meeting be received and confirmed as a correct record.

d) Planning and Amenities Committee – 18th July 2016

RESOLVED : that the Minutes of this Meeting be received and confirmed as a correct record.

71/16 INVOICES FOR PAYMENT

The Town Clerk reported that under the new signing arrangements the invoices had been approved for payment as detailed on the schedule covering voucher numbers 74/16 - 95/16 totalling £36,838.24. The invoices were available for any member to see if necessary. **RESOLVED** that the payments be noted.

72/16 SIGNING OF DOCUMENTS

RESOLVED that authority be given for the signing of documents on the City Council's behalf pertinent to open decisions of the Council taken at this Meeting.

73/16 EXCLUSION OF PRESS AND PUBLIC

RESOLVED that in accordance with Section 1 of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, the Press and Public be excluded for the following items relating to staffing and financial matters which included information of a confidential nature:

74/16 STAFFING PANEL MEETING 21st July 2016

The Town Clerk reported that the Staffing Panel had met to discuss various issues relating to the staff of the City Council. A report was circulated to Members and consideration was duly given to the items contained therein.

RESOLVED that :-

- a) the Town Clerk continue with Welsh lessons and also consider a residential course;
- b) the Project Officer Job Evaluation be agreed and the post be upgraded from Scale 5 to 6 with effect from April 2016;
- c) the casual labourers contracts be extended for a further 6 months with a review early in 2017; and
- d) the Town Clerk continues to assess requirements using the City Council staff where possible with regard to the Pier Restoration Project and external resources to be utilised where specialist work was required.

75/16 FINANCIAL MATTERS

The Town Clerk reported on financial matters of some concern that had arisen recently and Members noted the challenges that were apparent in resolving these matters. It was noted that actions had been taken to address the issue and that the Clerk continue to pursue the matter.

A matter relating to a Pier kiosk was also reported and it was agreed that the Mayor and Town Clerk would address this issue with the Pier Kiosk holder.

The Town Clerk reported that the Trustees of the St. Johns Church had chosen not to go ahead with the proposed Lease of Land at High Street and all costs had now been reimbursed.

The Meeting finished at 7.20 p.m.

MAYOR

Cofnodion **CYFARFOD o'r CYNGOR** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun 5^{ed} o Fedi 2016** am 6.30 y.h.

PRESENNOL :-

Ei Deilyngdod y Maer, y Cyngorydd Dewi Williams			
Y Cyngorwyr	Mrs J Forsyth	D Madge	N Pickavance
	Bryn Hughes	Mrs J Marshall	Mair Rowlands
	J Wynn Jones	R K Marshall	M Shultan
	D Llewelyn	J M Martin	E H Williams

Swyddogion :- Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

66/16 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Dirprwy Faer, y Cyngorydd D Hainge a'r Cyngorwyr Susan Ashworth, Mrs E Butler, Mrs L Day, Colin King a G O Roberts.

67/16 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLTIAD PERSONOL

Dim.

68/16 CYHOEDDIADAU

Adroddodd Clerc y Dref fod y sedd wag ar Ward Marchog wedi cael ei hysbysebu, nid oedd angen etholiad. Byddai'r Cyngor bellach yn cyfethol Aelod newydd i lenwi'r sedd (roedd dau wedi dangos diddordeb). Trafododd y Cyngor y ffordd orau o lenwi'r sedd, a chan ystyried nad oedd cyfarfod arall o'r Cyngor tan 7 Tachwedd, teimlwyd y byddai'n angen rhoi Pŵer i Weithredu i'r Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau ar 26 Medi i wneud y penodiad.

PENDERFYNWYD gwahodd y ddau ymgeisydd i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau ar 26 Medi a rhoi Pŵer i Weithredu i'r Pwyllgor hwnnw i gyfethol.

Adroddodd Clerc y Dref ei bod yn amser prynu Coed Nadolig. Roedd AGB wedi dweud yr hoffent brynu coeden ychwanegol i'w gosod yn y man eistedd yn Eglwys Sant Ioan, y Stryd Fawr. Byddai hyn yn golygu suddo cynhaliad yn ogystal â chael cyflenwad trydan a byddai angen cyngor gan yr Awdurdod Priffyrrd am ddiogelwch y ffordd.

PENDERFYNWYD fod Clerc y Dref yn delio â'r gofynion uchod, hefyd yn prynu dwy Goeden Nadolig i Ganol y Ddinas.

Adroddodd Clerc y Dref nad oedd Cyngor ar Bopeth wedi derbyn nac wedi talu i mewn y siec a anfonwyd atynt dyddiedig Ionawr 2016. Gan na ellid ei chyflwyno i'r Banc mwyach, roedd CAB wedi gofyn am daliad arall. **PENDERFYNWYD** gwneud taliad drwy BACS iddynt.

69/16 COFNODION Y CYNGOR

Cyfarfod y Cyngor – 6^{ed} o Fehefin 2016

PENDERFYNWYD: derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor uchod fel rhai cywir a'u harwyddo gan y Maer.

70/16 COFNODION PWYLLGORAU

a) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 6^{ed} o Fehefin 2016

PENDERFYNWYD : cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir.

b) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau - 27ain o Fehefin 2016

PENDERFYNWYD : cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir.

c) Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol - 27ain o Fehefin 2016

PENDERFYNWYD : cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir.

d) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 18 o Orffennaf 2016

PENDERFYNWYD : derbyn a chadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir.

TUDALEN 16

71/16 ANFONEBAU I'W TALU

Adroddodd Clerc y Dref, o dan y trefniadau arwyddo newydd, fod yr anfonebau wedi cael eu cymeradwyo i'w talu fel eu ceir yn y Rhestr, yn cynnwys Talebau Rhif 74/16 – 95/16 yn rhoi cyfanswm o £36,838.24. Roedd yr anfonebau ar gael i unrhyw aelod eu gweld pe bai angen. **PENDERFYNWYD** nodi'r dogfennau.

72/16 LLOFNODI DOGFENNAU

PENDERFYNWYD : rhoi hawl i lofnodi ar ran Cyngor y Ddinas y dogfennau perthnasol i benderfyniadau'r Cyngor a wnaed yn y Cyfarfod hwn.

73/16 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 1 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd yn ystod trafodaeth yr eitemau canlynol ynglŷn â materion staffio sydd yn cynnwys gwybodaeth o natur gyfrinachol:

74/16 CYFARFOD PANEL STAFFIO 21 Gorffennaf 2016

Adroddodd Clerc y Dref fod y Panel Staffio wedi cyfarfod i drafod amrywiol faterion oedd yn gysylltiedig â staff Cyngor y Ddinas. Dosbarthwyd adroddiad i'r Aelodau a buont wedyn yn ystyried yr eitemau a oedd ynddo.

PENDERFYNWYD :-

- a) fod Clerc y Dref yn parhau â'r gwersi Cymraeg a hefyd yn ystyried cwrs preswyl;
- b) cytuno ar Werthusiad Swydd y Swyddog Prosiect ac uwchraddio'r swydd o Raddfa 5 i 6 i ddod i rym o fis Ebrill 2016;
- c) ymestyn cytundebau'r gweithwyr achlysurol am 6 mis pellach gydag adolygiad ar ddechrau 2017; a
- d) bod Clerc y Dref yn parhau i asesu'r gofynion gan ddefnyddio staff Cyngor y Ddinas lle bo modd ar Brosiect Adfer y Pier a defnyddio adnoddau allanol pan fo angen gwaith arbenigol.

75/16 MATERION CYLLID

Adroddodd Clerc y Dref ar rai materion ariannol a oedd wedi peri pryder yn ddiweddar a nododd yr Aelodau yr heriau a ddaeth i'r amlwg wrth geisio datrys y materion hyn. Nodwyd fod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r mater ac y dylai'r Clerc barhau i fynd ar ôl hyn.

Adroddwyd am fater a oedd ynghlwm â Chiosg y Pier hefyd a chytunwyd y byddai'r Maer a Chlerc y Dref yn mynd i'r afael â'r mater hwn gyda deilydd Ciosg y Pier.

Adroddodd Clerc y Dref fod Ymddiriedolwyr Eglwys Sant Ioan wedi penderfynu peidio â symud ymlaen gyda'r Les arfaethedig ar Dir yn y Stryd Fawr a bod y costau i gyd wedi cael eu had-dalu bellach.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.20 y.h.

MAER